David James Jones, ‘Gwenallt’, 1899–1968
Bardd, beirniad, ysgolhaig a heddychwr

> Gwae inni wybod y geiriau heb adnabod y Gair,
> A gwerthu ein henaid am doffi a chonffeti ffair,
> Dilyn ar ôl pob tabwrdd a dawnsio ar ôl pob ffliwt
> A boddi hymn yr Eiriolaeth â rhigwm yr Absoliwt.
>
> *O ‘Ar Gyfeiliorn’, Gwenallt*

Gwenallt oedd bardd Cristnogol mwyaf yr ugeinfed ganrif ac mae’n un o feirdd rhagoraf Cymru. Yr oedd dwy elfen gref yn rhedeg fel llinynnau arian trwy ei farddoniaeth gan adlewyrchu ei gefndir, sef Cristnogaeth a diwydiant.

Ym Mhontardawe ar waelod Cwm Tawe, wyth milltir i’r gogledd-ddwyrain o Abertawe, y ganwyd Gwenallt ar 18 Mai 1899. Ef oedd yr hynaf o dri phlentyn Thomas (‘Ehedydd’) Jones a’i wraig Mary. Pan oedd yn bedair oed symudodd y teulu i’r Alltwen, yr ochr arall i afon Tawe. Mynychent gapel y Methodistiaid Calfinaidd, Soar, Pontardawe, lle roedd ei dad yn flaenor. Yn dilyn addysg elfennol yn yr Alltwen aeth i Ysgol Sir Ystalyfera, ond cyn iddo sefyll ei Dystysgrif Uwch fe’i carcharwyd oherwydd ei heddychiaeth. Pan oedd yn ei arddegau, teimlai fod bwlch amlwg rhwng Cristnogaeth Ymneilltuol a’r gweithiwr cyffredin a mabwysiadodd safbwynt y Sosialydd Cristnogol gan ymuno â’r Blaid Lafur Annibynnol.

Ymaelododd hefyd â dwy gymdeithas basiffistaidd, sef y Gymdeithas Wrth-Gonsgripsiwn a Chymdeithas y Cymod, ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf bu’n wrthwynebydd cydwybodol. Oherwydd hyn fe’i carcharwyd yn Wormood Scrubs a Dartmoor rhwng 1917 a 1919 a pharodd ei brofiadau chwerw o erledigaeth iddo droi yn Farcsydd anghrediniol. Yn ddiweddarach daeth i brofiad fel Cristion ac fe ddisgrifiodd ei dröedigaeth fel hyn: ‘Troi yn Gristion wrth ddarllen fy Meibl. Tröedigaeth Rhesymolwr a Rhamantydd.’ Dros y blynyddoedd bu’n aelod gyda’r Eglwys yng

Nghymru, ac yn y Tabernacl, Aberystwyth (MC), ac yr oedd ganddo gydymdeimlad mawr â'r Mudiad Efengylaidd.

Aeth i Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, ym 1919, gan ennill gradd dosbarth cyntaf yn y Gymraeg a gradd ail ddosbarth yn y Saesneg. Cafodd ysgoloriaeth i wneud gradd bellach ac enillodd MA am ei draethawd 'Cerddi'r Saint'. Penodwyd ef yn athro Cymraeg yn Ysgol Sir y Barri ac yna, ym 1927, yn ddarlithydd yn Adran y Gymraeg Coleg y Brifysgol, Aberystwyth lle y bu hyd ei ymddeoliad ym 1966. Ym 1934 priododd â Nel Owen Edwards a chawsant un ferch, sef Mari. Dyrchafwyd ef yn uwch-ddarlithydd a dyfarnwyd gradd D.Litt. er anrhydedd iddo gan Brifysgol Cymru ym 1967. Gwnaeth gyfraniad pwysig i ysgolheictod Cymraeg, yn enwedig ym maes llenyddiaeth a syniadaeth y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ef oedd un o aelodau cyntaf yr Academi Gymreig a golygydd cyntaf y cylchgrawn *Taliesin*, ond fel bardd a llenor y gwnaeth ei gyfraniad mwyaf.

Torrodd ei ddannedd fel bardd mewn eisteddfodau lleol ac yn y coleg gyda chyfeillion fel Idwal Jones, Iorwerth C. Peate a G.J. Morse. Enillodd ei awdl 'Y Mynach' Gadair Eisteddfod Genedlaethol Abertawe (1926), a'i awdl 'Breuddwyd y Bardd' Gadair y Genedlaethol ym Mangor (1931). Cyhoeddodd gyfrolau o'i gerddi, yn eu plith *Ysgubau'r Awen* (1939), *Cnoi Cil* (1942), *Eples* (1951), ac *Y Coed* (1969), gan fynegi ynddynt ei brofiadau a'i fyfyrdodau dwys dros Gymru, Cristnogaeth a diwydiant. Bu farw yn ysbyty Aberystwyth ar 24 Rhagfyr 1968.